

PROSBECTWS
PROSPECTUS

# Ysgol Gymraeg
# Ystalyfera Bro Dur



## CROESO I BROSBECTWS YSGOL GYMRAEG YSTALYFERA BRO DUR

Croeso cynnes i Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur, cymuned Cymraeg llwyddiannus a llewyrchus lle mae pob plentyn a myfyriwr yn cael ei herio a'i gymell i ddatblygu'n unigolyn o'r radd flaenaf. Mae ein arwyddair 'Dysgu Gorau Dysgu Byw' yn sail i bob peth a wnawn a'n nod yw darparu'r addysg a'r profiadau gorau posibl i baratoi ein plant ar gyfer y camau nesaf mewn bywyd. Rydym yn parchu y gwerthoedd traddodiadol sef gwaith caled, moesau da, a hunan-ddisgyblaeth, tra'n paratoi ein myfyrwyr ar gyfer eu bywydau yn y dyfodol mewn byd sy'n newid yn barhaus

Mae'r Ysgol yn lle dysgu lle mae myfyrwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn mwynhau eu taith addysgol. Mae Dysgu ac Addysgu arloesol wrth wraidd popeth a wnawn i mewn ac allan o'r ystafell ddosbarth a gyda chymaint o gyfleoedd yn Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur, hyderwn y bydd eich plentyn yn tyfu ac yn ffynnu yma gyda ni. Heb os, rydym yn elwa ar staff ymroddedig sydd â chymwysterau ardderchog er mwyn dod â dysgu yn fyw ar gyfer pob unigolyn yn yr 21ain ganrif.

Credwn fod addysg cyfrwng Cymraeg yn cynnig y gorau posib i blant a phobl ifanc ein gwlad, drwy roi iddynt ddwy iaith werthfawr ac angenrheidiol, geirfa a chysyniadau arbenigol a cyfoethog, a chyfleoedd hwyliog ac amrywiol. Dewch gyda ni, felly ar daith i Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur – rydym yn frwd i weithio'n agos gyda chi i herio, gefnogi ac annog eich phlentyn i wireddu a chyflawni eu dyheadau.

## WELCOME TO OUR YSGOL GYMRAEG YSTALYFERA BRO DUR PROSPECTUS

A warm welcome to Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur, a successful and prosperous Welsh-speaking community where all children and students are challenged and motivated to develop into first-class individuals. Our motto 'Best Learning to Learn to Live' underpins everything we do and our aim is to provide the best possible education and experiences in order to prepare our children for the next steps in life. We respect the traditional values of hard work, good manners, and self-discipline, while preparing our students for their future lives in a continuously changing world.

Our School is a place of learning where students feel safe and enjoy their educational journey. Innovative Teaching and Learning is at the heart of everything we do both in and outside the classroom and with so many opportunities at Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur, we trust that your child will grow and thrive here with us. Undoubtedly, our dedicated and highly qualified staff will bring learning to life for every person in the 21st century.

We firmly believe that Welsh-medium education offers the best possible foundations for the children and young people of Wales, by giving them two valuable and necessary languages, rich and varied concepts and vocabulary, and diverse and engaging opportunities. Join us therefore, on a journey to Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur – we are keen to work closely with you to challenge, support and encourage your child to realise and achieve their aspirations.

Laurel Davies.

**Mrs Laurel Davies**

Pennaeth / Head



## DINASYDDION CYFRIFOL

O fewn ein cymuned yn Ystalyfera Bro Dur, bydd disgyblion y derbyn sylfaen gadarn er mwyn cymryd rhan llawn fel dinasyddion cymunedol yng Nghymru a'r byd ehangach. Wrth iddynt ddysgu a datblygu eu hunaniaeth eu hunain, fel Cymry ifanc, rydym yn eu hannog i ystyried safbwyntiau a barnau eraill er mwyn ehangu eu gorwelion a chyrraedd penderfyniadau cytbwys a chyfiawn.

Mae ein rhaglenni bydi, mentoriaid cymar ynghyd â'n cynlluniau addysg traws-gyfnod a pontio yn darparu cyfleoedd i ddatblygu sgiliau gwerthfawr arwain a chynghori. Trwy'r rhaglenni rhain, mae ein pobl ifanc yn derbyn hyfforddiant sut i gefnogi a chynghori eraill wrth wynebu anawsterau, tra ar yr un pryd yn datblygu sgiliau empathi a datrys problem, dyma sgiliau allweddol er mwyn sicrhau cymuned ofalgar a charedig.

Mae ein calendr blynyddol yn llawn digwyddiadau diwylliannol a chwaraeon sy'n caniatáu i'n cymuned ddod at ei gilydd, er mwyn rhannu'r un weledigaeth a hunaniaeth. Er bod ein llysoedd ysgol, Llywelyn, Hywel a Gwenllian yn eithriadol o gystadleuol, maent hefyd yn magu'r ymdeimlad o berthyn ac yn darparu strwythur arbennig er mwyn cystadlu, codi arian a dathlu gyda'n gilydd mewn awyrgylch hwyliog a chadarnhaol. Mae'r Eisteddfod ysgol yn ddigwyddiad pwysig lle rydym yn dod at ein gilydd i ddathlu ein balchder yn niwylliant, iaith a thraddodiad Cymru. Rydym yn annog pob disgybl i gymryd rhan a mwynhau gwledd o gystadlaethau, o'r safonol i'r hwyliog.

Rydym yn gymuned ofalgar, sy'n edrych allan er mwyn cefnogi elusennau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Mae ein Cronfa Ddyngarol yn codi miloedd pob blwyddyn drwy weithgareddau nawdd amrywiol sy'n cael eu cefnogi'n gyson gan haelioni brwdfrydig ein disgyblion.

## RESPONSIBLE CITIZENS

Within our community at Ystalyfera Bro Dur, pupils will receive a firm foundation on which to prepare to contribute fully as a citizen of their wider communities, within Wales and the World. As they learn and develop their own identities as young Welshmen and women, we encourage pupils to consider the views of others and expand their outlook in order to reach fair and balanced conclusions.

Our buddy and peer mentoring programme as well as our cross phase teaching and transition programmes allow pupils to gain valuable leadership and support skills. Through these programmes, young people are given training on how to support and advise others through difficulties, while also developing problem solving and empathy skills, which are key ingredients of a supportive and caring community.

A wide range of sporting and cultural events and occasions within our school calendar ensures our community comes together regularly, which ensures a shared sense of purpose and identity. Although fiercely competitive, our house system of Gwenllian, Hywel and Llywelyn increases the sense of belonging and provides a structure where individuals can compete, fundraise and celebrate together in a fun and safe environment. Our School Eisteddfod is an important event where we celebrate our pride in our Welsh heritage, language and culture. Every pupil is encouraged to participate and enjoy a range of competitions ranging from high quality performances in Music, Comedy and Drama or in entertaining and fun competitions where energy and exuberance take centre stage!

We are a caring community, looking outwards and supporting local, national and international charities and causes. Each year our Humanitarian Fund raises thousands of pounds to support charitable causes through a range of sponsored events, we are proud of the sincere and generous response from our pupils.



# Hyder
# Confidence

> *Mae'r disgyblion yn cyfathrebu'n gwrtais a hyderus gydag oedolion ac yn hynod groesawgar tuag at ymwelwyr. Mae'r disgyblion hŷn yn ymwybodol o bwysigrwydd cynnig arweiniad i'w cyd-ddisgyblion iau, gan gyflwyno'u hunain fel modelau rôl cadarnhaol iddynt. (Estyn 2022)*
>
> *Pupils communicate politely and confidently with adults and are very welcoming towards visitors. The older pupils are aware of the importance of offering guidance to their younger fellow pupils and present themselves as positive role models for them. (Estyn 2022)*



## HYDER

Yma yn Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur rydym yn deall mai hunan hyder yw'r allwedd i lwyddiant academaidd. Adeiladu hyder yn ein disgyblion yw un o brif ffocysau'r ysgol ac fel addysgwyr ein nod yw sicrhau amgylchfyd dysgu sy'n diogelu'r elfen bwysicaf i lwyddiant sef cymhelliant. Ffydd yn y gallu i wneud eich gorau yw hunan-hyder, cred gadarn yn y gallu i gyflawni eich gorau a'r parodrwydd i ddysgu sgiliau newydd a chymryd risg mesuredig. Fel ysgol ein priod waith yw helpu pobl ifanc i gredu yn eu gallu i gyflawni eu potensial a thrwy ein cwricwlwm cyfoethog mae ein disgyblion yn tyfu i fod yn ddysgwyr hyderus sy'n anelu at gyflawni pethau mawr. Ein nod yw bod disgyblion Ystalyfera Bro Dur yn deall beth yw dysgu da a bod ganddynt yr hyder i ddweud 'Rydw i wedi llwyddo' neu 'Mae angen i mi wneud mwy o ymdrech' a hynny yw seiliau dysgu hyderus. Yma yn Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur rydym yn dathlu ymdrech a phenderfyniad uwchlaw popeth arall. Mae ein neges yn glir mai dim ond trwy ddyflabarhad, gwytnwch a phenderfyniad y byddwn yn cyrraedd y nod a thrwy hynny bod yn hyderus am ein dyfodol: Dysgu Gorau Dysgu Byw.

## CONFIDENCE

Here at Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur we realise that self-confidence is a key factor in educational success. Building confidence in our students is one of our main objectives and as educators we aim to ensure an atmosphere for learning which safeguards the most important ingredient to success: motivation. Self-confidence is a belief in your ability to do your best, a strong belief that you are capable of achieving your best, a readiness to learn new skills and to take measured risks. As a school part of our job is to help our students believe that they can achieve great things and though our rich curriculum our students thrive as confident learners who aspire to great things and expect the absolute best from themselves. We want our students to be confident learners, to have the clarity of mind to say to themselves "I have done well" or "I know I could do better". At Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur we celebrate effort and determination above all else. We are clear in our message that it is only through determination, resilience and perseverance that we achieve our goals and confidently take charge of our future: Dysgu Gorau Dysgu Byw.







> Rwyf yn gwerthfawrogi'n fawr y modd mae'r ysgol wedi llwyddo i ddiwallu anghenion pob un o fy mhlant sydd fel unigolion yn wahanol iawn o ran eu sgiliau, eu rhinweddau a'u gallu academaidd yn ogystal â'u diddordebau. Mae pob un wedi eu cymell i lwyddo a chyrraedd eu potensial fel unigolion tra'n ddisgyblion yn yr ysgol. (RHIANT)
>
> I value the school's ability to meet the needs of all my children who as individuals possess different skills, attribute and ability, as well as interests. All were motivated to succeed and fulfil their potential as pupils in the school. (PARENT)

# Uchelgeisiol

# Ambitious






## UCHELGEISIOL

Mae dysgu ar y lefel uchaf yn rhinwedd allweddol ysgol o ansawdd ac yma yn Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur gweithiwn yn unol â'r syniad bod pob disgybl yn ddysgwr uchelgeisiol sy'n anelu at gyrraedd y safon gorau posib. Rydym am weld ein disgyblion yn gosod targedau uchel i'w hunain ac arddangos awydd i ddysgu o fewn amgylchfyd heriol a chefnogol. Meithrin uchelgais mewn disgyblion ysgol sydd yn datblygu dysgwyr medrus a boed drwy brofiadau ar ddiwrnodau ABCh, canfod cyfleoedd a chysylltiadau gyda'r byd busnes a gwaith, ymweliadau i brifysgolion nodedig, neu gyfoeth ein cwricwlwm, hybu'r uchelgais ac awydd i fod yn ddysgwyr gydol oes yn ein disgyblion yw un o brif amcanion Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur. Anelwn i hyrwyddo agwedd cywir at ddysgu i lunio dysgwyr uchelgeisiol, dysgwyr sy'n chwilfrydig ac yn awyddus i ddarganfod pethau newydd; dysgwyr sydd â'r wybodaeth, y sgiliau a'r hyder i groesawu ac elwa o newid; dysgwyr sydd yn deall y daw llwyddiant drwy ymdrech a'r modd y defnyddir gallu; dysgwyr sydd yn deall bod camgymeriadau a methiannau yn rhan annatod o ddatblygu effeithiol.

## AMBITIOUS

Learning at the highest level is a key indicator of a quality school and at Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur every child is encouraged to be ambitious in their learning and to be the best they can be. We want our pupils to set themselves high targets and to be hungry to learn in a supportive and challenging educational environment. Whether it's experiences on PSE days, seeking opportunities and links with the world of work and business, visits to notable universities or the enrichment of our curriculum, nurturing ambition in school is what helps to develop capable and lifelong learners, developing the ambition to be lifelong learners is our aim for all our students here at Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur. We strive to promote a positive attitude to learning to shape ambitious learners: learners who are curious and eager to discover new things; learners who have the knowledge, skills and confidence to embrace and benefit from change; learners who believe that success is not the result of innate ability but rather how you use that ability; learners who believe that mistakes and failures are an integral part of effective development.



# Creadigol
# Creative

"A Elfen nodedig o ddarpariaeth yr ysgol yw'r ystod werthfawr o brofiadau allgyrsiol sydd ar gael. Mae hyn yn cynnwys clybiau caredigrwydd, codio, gwaith pren, dawns, ffasiwn a syrffio. Yn ogystal, trefnir ymweliadau addysgol diddorol a theithiau preswyl lleol a thramor. Mae'r ysgol yn darparu amrediad gwerthfawr o weithgareddau i ddisgyblion yn y chwaraeon a'r celfyddydau. (Estyn 2022)

A notable example of the school's provision is the valuable range of extra-curricular activities that are available. This includes kindness, coding, woodwork, dance, fashion and surfing clubs. Interesting educational visits and local and foreign residential trips are also organised. The school provides a valuable range of activities for pupils in sports and the arts. - (Estyn 2022)"





## CREADIGOL

Yr ydym ni, yn Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur yn flaengar wrth annog a meithrin creadigrwydd ein disgyblion. Creadigrwydd yw sail pob agwedd o ddysgu ac addysgu tu fewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth er mwyn ymestyn a bwydo'r dychymyg fel bod disgyblion Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur yn barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith. Mae darparu gwersi lliwgar, diddorol a chreadigol yn flaenoriaeth wrth gynllunio a chredwn fod creadigrwydd yn mynd law yn llaw a'n darpariaeth yma yn Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur. Mae creadigrwydd a menter yn elfennau canolog o fewn bywyd modern sydd yn cael eu datblygu a'u hymestyn drwy gydol gyrfa disgyblion yn ein hysgol. Wrth gadw'r disgybl yn y canol, rydym yn datblygu'r unigolyn fel ei bod yn mentro i'r dyfodol yn hyderus a gwybodus. Mae gennym ddiwylliant o weithio'n galed a chwarae'n galed wedi ei gefnogi gan amrywiaeth eang a chyffrous o weithgareddau allgyrsiol sydd yn ei dro yn datblygu hyder mewnol ein disgyblion. Mae'r hunan hyder yma yn arf i'n disgyblion wynebu heriau'r 21ain ganrif ac rydym yn hyderus bod hunan-greadigrwydd yn cyfoethogi'r ymdeimlad o berthyn, sydd yn ei dro, yn sicrhau llwyddiant.

## CREATIVE

Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur is renowned for encouraging and nurturing creativity in their students. We adopt a creative approach to all aspects of teaching and learning inside and beyond classroom. The Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur experience stimulates imaginations in ways that engender excitement and foster creative thinking thus preparing our pupils to play a full part in life and work. Colourful and engaging lessons are at the forefront of teacher lesson planning here at Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur and we believe that Creative stimulation should go hand in hand with subject delivery. Creativity and enterprise are central features of modern life that are developed and extended throughout a school career. We develop our pupils as individuals so that they are capable of responding and engaging creatively to others and the world in which they live. We have a work hard and play-hard culture underpinned by a broad and exciting spectrum of extracurricular activities and this in turn develops inner confidence which enables them to face and overcome the challenges of 21st century society. We are confident that personal creativity enriches personal involvement which in turn guarantees success.



> *Mae Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur yn gymuned ofalgar, gynhwysol Gymreig lle mae cefnogaeth effeithiol i ddiwallu anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol disgyblion. (Estyn 2022)*
>
> *Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur is a caring, inclusive Welsh community where effective support meets pupils' emotional, health and social needs. (Estyn 2022)*

# *Iach*
# *Healthy*



## IACH

Fel ysgol iach rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ein pobl ifanc yn deall pwysigrwydd iechyd corfforol, iechyd emosiynol a meddyliol yn ogystal â iechyd cymdeithasol er mwyn llwyddo mewn bywyd. Ein nod yma yn Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur yw addysgu ac annog ein disgyblion i gadw eu hunain yn ddiogel ac yn iach trwy amrywiol brofiadau y tu mewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth. Trwy ein rhaglen ABCh a Dinasyddiaeth, ein darpariaeth gref ar ddiogelwch a lles, y cyfleoedd i sicrhau ffitrwydd corfforol a'r anogaeth i ddewis bwydlen addas, rydym yn hyrwyddo pwysicrwydd cadw'n iach am oes. Mae gennym ddiwylliant yn seiliedig ar ffydd, parch, cyfrifoldeb a 'blas am ddysgu'. Mae'r awyrgylch bositif a'r weledigaeth gytun yn golygu bod ein plant a'n pobl ifanc yn tyfu ac yn datblygu mewn amgylchfyd diogel, gofalgar, ymatebol – ysgol ble mae pob disgybl yn cael ei werthfawrogi a'i ymbweru i fedru byw bywyd gan wireddu ei ddyheadau fel aelod gwerthfawr o gymdeithas.

## HEALTHY

As a healthy school Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur is committed to ensuring that our young people understand the importance of physical health, emotional and mental health and healthy relationships in order to fulfil their potential in life. Our aim is to educate and encourage our pupils to keep them safe and healthy and we ensure that they receive excellent support and experiences both inside and outside the classroom. Through our PSE and Citizenship programme, our powerful safeguarding and welfare provision, opportunities to ensure physical fitness and encouragement to choose a healthy diet, we promote the importance of being fit for life. Our school culture is firmly based on trust, respect, responsibility, and joy of learning. By fostering a positive attitude and a clear vision that is shared by all, we can ensure that our children and young people grow and develop in a safe, caring and responsive environment – a school where every pupil in valued and empowered to lead fulfilling lives as valued members of society.



> *Our pupils will continue their pursuit of education and excellence and will, above all else, leave confident and prepared to play a vital role in society. (PENNAETH)*
>
> *Bydd ein disgyblion yn parhau gyda'u haddysg o safon ardderchog gan ein gadael yn ddinasyddion hyderus yn barod i ymgymryd yn llawn â rolau o fewn cymdeithas. (HEAD)*

# *Mentrus*
# *Enterprising*



## MENTRUS

Ein nod yma yn Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur yw galluogi ein disgyblion i ddatblygu'n unigolion cyflawn a llwyddiannus a thrwy ddarparu amrywiol gyfleoedd iddynt, datblygu eu sgiliau mentergarwch, eu dealltwriaeth o'r byd gwaith a dyheadau uchel. Gall rhain amrywio o sefydlu sioe radio, cystadlu mewn heriau mentergarwch, lawnsio busnesau a pherfformio mewn achos llys ffug.

Anelwn at ddarparu ffyrdd cyffrous a gafaelgar i ddisgyblion ar draws ein hysgol gyfan i gydweithio a defnyddio'u sgiliau mentergarwch gan ffocysu ar waith Tîm ac Arweinyddiaeth; Gwrando a Chyflwyno; Anelu'n Uchel gydag agwedd bositif; Datrys Problemau a Chreadigrwydd. Dyma sgiliau a rhinweddau sy'n galluogi pob plentyn i fod yn llwyddiannus, nid sgiliau academaidd yn unig. Sgiliau gydol oes yw sgiliau mentergarwch!

Ein bwriad yw datblygu dysgwyr heb derfynau, sy'n herio ac yn adlewyrchu ar eu dysgu eu hunain. Anogwn agwedd 'gallaf wneud' at ddysgu a chyfrannu. Ein gweledigaeth yn Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur yw y bydd pob disgybl yn gadael ein hysgol gyda'r sgiliau, y profiadau a'r dyheadau i fedru llwyddo yn y byd sydd ohoni heddiw, ac yfory.

## ENTERPRISING

Our aim here at Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur is to help our pupils become well rounded and successful individuals and, through providing opportunities, build their enterprise skills, their understanding of the working world and high aspirations. These can range from setting up a radio show, competing in enterprise challenges, launching mini businesses and performing in mock trials.

We strive to provide exciting and engaging ways for pupils across our whole school to work together and use their enterprise skills focusing on Teamwork & Leadership; Listening & Presenting; Aiming High & Staying Positive; Problem Solving & Creativity. These are skills and characteristics that enable all children to be successful, not just academic skills. Enterprise skills are lifelong skills!

Together we want to develop learners without limits, who challenge and reflect on their own learning. We look to encourage a 'can do' attitude to learning and participation. Our vision at Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur is that all pupils will leave our school equipped with the skills, experiences and aspirations to succeed in today's and and tomorrow's world.





# Ein Cwricwlwm
# Our Curriculum

## Ein Cwricwlwm i Gymru

Hwyluso teithiau unigol dysgwyr ar draws y continwwm dysgu 3-19 i wireddu'r Pedwar Diben yw prif yrrwr ein cynllunio cwricwlwm ar lefel ysgol, adran a dosbarth. Erbyn diwedd eu hamser yn Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur, bydd ein dysgwyr yn:

- Dysgwyr uchelgeisiol, galluog sydd yn barod i ddysgu trwy gydol eu hoes.
- Unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.
- Cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith.
- Dinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n barod i fod yn ddinasyddion yng Nghymru a'r byd.

Wrth galon ein gweledigaeth cwricwlwm yw arwyddair ein hysgol, 'Dysgu Gorau Dysgu Byw'. Mae ein cwricwlwm yn cael ei ddylunio i ddatblygu dysgwyr gydol oes hyderus a galluog sydd wedi eu harfogi gyda'r sgiliau a'r wybodaeth i ddod yn gyfranwyr gwerthfawr i gymdeithas.

> *"Mae gan yr ysgol weledigaeth glir ar gyfer Cwricwlwm i Gymru sydd wedi ei seilio ar godi uchelgais disgyblion a chynnig profiadau sy'n datblygu hunaniaeth disgyblion ynghyd â'u dealltwriaeth o'r ardal leol, Cymru a'r byd. (Estyn 2022)"*

## Our Curriculum for Wales

Facilitating learners' individual journeys across the 3-19 continuum to realise the Four Purposes of the Curriculum for Wales is the main driver of our curriculum planning at a whole school, departmental and classroom level.

By the end of their time at Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur, our learners will be:

- Ambitious, capable learners who are ready to learn throughout their lives.
- Enterprising, creative contributors who are ready to play a full part in life and work.
- Ethical, informed citizens who are ready to be citizens of Wales and the world.
- Healthy, confident individuals who are ready to lead fulfilling lives as valued members of society.

> *"The school has a clear vision for the Curriculum for Wales, which is based on raising pupils' ambitions and providing experiences that develop pupils' identity in addition to their understanding of their local area, Wales, and the world. (Estyn 2022)"*

At the heart of our curriculum vision is our school motto, 'Dysgu Gorau Dysgu Byw' – 'the best learning is learning to live'. Our curriculum is being designed to develop confident, resilient and capable lifelong learners who are equipped with the skills and knowledge to become valuable contributors to society.



# Ein Gweledigaeth Our Vision

## RYDYM...

**... YN PERTHYN** i'r gymuned ysgol, y gymuned ehangach a Chymru. Mae'r gymuned ysgol yn holl bwysig i ni ac mae ein cwricwlwm yn magu'r ymdeimlad o berthyn trwy'r gwaith rydym yn cyflawni. Mae ein cymuned ysgol yn gynhwysol ac rydym yn cyd-weithio ac yn annog ein gilydd trwy'r amser i lwyddo. Rydym hefyd yn perthyn i'n cymunedau lleol ac yn gweithio'n galed i gyfrannu'n bositif atynt.

**... YN YMHOLGAR** ac rydym yn mwynhau her. Rydym yn awyddus i holi cwestiynau mawr a chwilio am atebion gyda'n gilydd. Rydym yn weithredol wrth ddysgu ac rydym yn datblygu corff eang o sgiliau a gwybodaeth newydd, cyffrous. Mae bod yn ymholgar yn ein galluogi i feddwl yn feirniadol a datrys problemau gan feddwl yn ehangach a chreadigol am ein gwaith.

**... YN GYMREIG**. Rydym yn Gymry balch sy'n gwerthfawrogi ac yn parchu ein hanes, iaith a diwylliant. Ni yw Cymry'r dyfodol a'n cenhadaeth ni yw gwarchod, hybu a thyfu'r iaith Gymraeg trwy gyfrannu at y gymdeithas Cymreig ehangach.

**... YN ANGERDDOL**. Rydym yn angerddol am ein cyfraniad i fywyd a gweithgareddau'r ysgol wrth ddesg, ar y maes neu ar lwyfan. Defnyddiwn yr angerdd yma i yrru ni ymlaen at lwyddiant.

**... YN ANELU'N UCHEL** ac rydym yn deall bod cyfleoedd di-ri ar gael i ni yn ein gyrfa ysgol ond hefyd wrth i ni adael yr ysgol. Mae gennym ddyheadau uchelgeisiol a gweithwn yn barhaus er mwyn gwireddu'r dyheadau yma.

**... YN WYDN.** Rydym yn wynebu heriau, ond rydym yn gweithio'n ddiwyd i'w goresgyn. Datblygwn y sgiliau fel rhan o'r cwricwlwm i reoli ein hunain a datblygu hyder yn ein gallu i feddwl yn greadiol a datrys ein problemau yn annibynnol. Ar adegau, rydym yn methu, ond rydym yn deall bod hyn yn rhan o'r daith dysgu, a defnyddiwn ein meddylfryd twf i ddyfalbarhau tan i bob un ohonom lwyddo.

**... YN ARWEINWYR.** Mae pob un ohonom yn cael cyfleoedd i arwain. Mae disgyblion yn arwain eu dysgu eu hunain, gan gymryd perchnogaeth dros eu cynnydd eu hunain mewn gwahanol feysydd. Mae cyfleoedd di-ri i arwain mewn pwyllgorau, mewn gweithgareddau allgyrsiol a thu fewn i'r dosbarth. Mae pob un athro yn arweinydd yn yr ysgol – yn arwain y disgyblion yn eu cwmni i lwyddiant ac yn arwain a rhannu arbenigedd gydag athrawon eraill, gyda'r nod o ddarparu'r addysg a phrofiadau o'r safon uchaf.

**...YN DDAWNUS** mewn ffyrdd amrywiol. Mae gennym ni i gyd ein doniau ac yn Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur, dathlwn doniau pob dysgwr, boed yn ddoniau academaidd, creadigol, ymarferol neu cymdeithasol. Ein nod pennaf yw adnabod a meithrin doniau unigol, trwy ymgymryd â phrofiadau cyfoethog a pHerthnasol. Trwy adnabod, dathlu a rhannu ein doniau, mae ein cymuned yn lle llawer cyfoethocach.

## WE...

**... BELONG** to the school community, the wider community and Wales. The school community is important to us and our curriculum builds the feeling of belonging through the work we achieve. Our school community is inclusive and we work together and inspire each other to succeed. We also belong to our local communities and we work hard to contribute positively to them.

**... ARE INQUISITIVE** and we enjoy a challenge. We are keen to ask big questions and look for the answers together. We are active as we learn and we develop a large body of new, exciting skills and knowledge. Being inquisitive allows us to think creatively and solve problems by thinking broadly and creatively about our work.

**... ARE WELSH.** We are proud to be Welsh and we appreciate our history, language and culture. We are the Welsh of the future and our mission is to conserve, promote and grow the Welsh language by contributing to the wider Welsh community.

**... ARE PASSIONATE** about our contribution to school life and activities by our desks, on the field or on the stage. We use this passion to drive us ahead to succeed.

**... ASPIRE** and aim high and we understand that we have a wealth of opportunities available to us in school but also after we leave school. We are ambitious and work consistently to realise these aspirations.

**... ARE RESILIENT.** We face challenges, but we work diligently to overcome them. We develop skills as part of the curriculum to manage ourselves and our self-confidence, to think creatively and to solve our problems independently. At times, we fail, but we understand that this is part of the learning journey, and we use our growth mind-set to persevere until each one of us succeeds.

**... ARE LEADERS.** Each one of us has an opportunity to lead. Our learners lead their own learning, by taking ownership over their progress in different fields. There are many opportunities to lead in committees, in extra-curricular activities and in class. Every teacher is a leader in the school – leading the learners in their company to succeed and sharing their expertise with others, with the aim of providing experiences and education of the highest standard.

**... ARE TALENTED** in different ways. We each have our talents and in Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur, we celebrate the talents of each learner – be they academic, creative, practical or social. Our main aim is to recognise and nurture these talents, by taking part in rich and relevant experiences. By recognising, celebrating and sharing our talents, our community is far richer..




## Dwy Iaith, dau ddewis, dau gyfle a dwywaith gymaint o hwyl!

Mae Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur yn ysgol i bawb. Mae tua 86% o ddisgyblion ein hysgol ni yn byw mewn cartrefi di-Gymraeg, ond maent yn llwyddo yn ardderchog mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Efallai fod hyn oherwydd eu bod, yn ifanc iawn, yn delio â geirfa a syniadau gwahanol mewn dwy iaith. O oedran ifanc maent yn deall cysyniadau amrywiol y ddwy iaith ac yn addasu eu siarad a gwrando a'u sgiliau cyfieithu a chyfathrebu yn ôl y sefyllfa. Mae plant yn deall traddodiadau gwahanol Cymru, Prydain, Ewrop a'r Byd drwy fod yn ddinasyddion dwyieithog yn gwerthfawrogi amrywiaeth ac yn datblygu eu hunaniaeth Gymreig mewn cyd-destun ehangach.

Rydym yn awyddus iawn i gynorthwyo rhieni i gymryd rhan llawn yn addysg eu plant yn Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur, cysylltwch â ni neu ewch draw at ein gwefan am fwy o syniadau ar sut i helpu eich plentyn gyda'u gwaith yn yr ysgol.

Rydym yn credu'n gryf yn addysg cyfrwng Cymraeg gan ei fod yn cynnig i'n plant a'n pobl ifanc yng Nghymru y cyfle gorau posib ar gyfer swyddi a gyrfaoedd; cyfleoedd diwylliannol; rhuglder mewn cyfathrebu; adeiladu hyder a datblygu sgiliau rhyng-bersonol. Os hoffech chi glywed mwy am fanteision addysg cyfrwng Cymraeg, neu os oes gennych gwestiynau neu bryderon, cysylltwch â ni am sgwrs bellach neu ymweliad er mwyn gwneud yn siwr eich bod yn gwneud y dewis gorau!

**Edrychwn ymlaen i glywed gennych!**

## Two languages, two choices, two opportunities and twice as much fun!

Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur is a school for all. Approximately 86% of pupils at our school live in non-Welsh speaking homes, yet they consistently perform excellently within Welsh medium education. This may be because they can, from a very young age, deal effectively with language in Welsh and English both in terms of grammar and vocabulary. They understand different concepts and ideas from both languages and can vary their speaking and listening according to audience and situation. They have a good understanding of the different traditions within Wales, Britain, Europe and the wider world through being bilingual citizens who appreciate diversity, while developing their own unique identities within a wider context.

We are very eager to help parents to involve themselves in their children's education at Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur, contact us at the school or visit our website for more ideas on how to assist your child to succeed with us.

We are committed to Welsh Medium education as it offers children and young people in Wales the best opportunity for careers; cultural opportunities; fluency in communication; building confidence and inter-personal skills. If you would like to discuss the benefits of Welsh medium education or have any questions or concerns regarding how to help your child at school, please contact us at school for a conversation or to arrange a visit in order to make sure you make the best choice!

**We look forward to hearing from you!**



# DIOGELU PLANT
# CHILD PROTECTION

*Mae Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur yn ymrwymedig i sicrhau lles a diogelwch pob disgybl. Credwn yn gryf yn hawl pob disgybl i ddysgu mewn amgylchedd gefnogol, ofalgar a diogel er mwyn datblygu'r gred, uchelgais a'r hyder i wireddu eu potensial llawn.*

*Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur is committed to ensuring the welfare and safety of all students. We believe that all students have a right to learn in a supportive, caring and safe environment in order to develop the belief, aspiration and courage to be their best.*

## Ysgol Gymraeg
## Ystalyfera Bro Dur

### MANYLION CYSWLLT / CONTACT DETAILS

Adran Gynradd
Ysgol Gymraeg Ystalyfera
Heol Glanyrafon
Ystalyfera
Castell-nedd Port Talbot
SA9 2JJ

(01639) 846900

YsgolYstalyferaCynradd@npt.school

Adran Uwchradd
Ysgol Gymraeg Ystalyfera
Heol Ynysydarren
Ystalyfera
Castell-nedd Port Talbot
SA9 2DY.

(01639) 842129

YsgolYstalyferaUwchradd@npt.school

Ysgol Gymraeg Bro Dur
Rhodfa'r Môr,
Traeth Melyn
Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
SA12 7EQ

(01639) 502895

YsgolBroDurUwchradd@npt.school